

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Meddygfa Heol Wylcwm,
Trefyclo

Dyddiad yr Arolygiad: 10 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Cyd-destun..... | 3 |
| 3. | Crynodeb | 4 |
| 4. | Canfyddiadau | 5 |
| | Ansawdd profiad y claf | 5 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 9 |
| | Ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth..... | 15 |
| 5. | Y Camau Nesaf..... | 18 |
| 6. | Methodoleg | 19 |
| | Atodiad B..... | 25 |

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif ffocws AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru p'un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad ar Feddygfa Heol Wylcwm yn Heol Wylcwm, Trefyclo, Powys, LD7 1AD, ar 10 Ionawr 2017. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), cymheiriaid adolygu meddygon teulu a rheolwyr practis a chynrychiolwyr o Gyngor Iechyd Cymuned Powys.

Archwiliodd AGIC sut roedd Meddygfa Heol Wylcwm yn bodloni'r safonau gofal a nodwyd yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau cyffredinol (meddygon teulu) ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf - Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y cleifion wrth wraidd ein dull o ran sut rydym yn arolygu.
- Cynnig gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau'n cynnig gofal o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn ddibynadwy ac yn canolbwyntio ar y person.
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn addas er mwyn cynnig gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa Heol Wylcwm yn darparu gwasanaethau i tua 4,300 o gleifion yn ardal Trefyclo. Mae'r feddygfa'n rhan o wasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r feddygfa'n cyflogi tîm staff sy'n cynnwys dau bartner meddyg teulu, dau feddyg teulu cyflogedig, tair nyrs practis, un cynorthwywyd cymorth gofal iechyd, 12 staff cymorth gweinyddol, a rheolwr practis.

Mae'r feddygfa'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Mân lawdriniaeth
- Brechiadau teithio
- Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau'r GIG (e.e. archwiliadau meddygol at ddibenion arbennig)
- Iechyd merched a chynllunio teulu
- Clinigau asthma / diabetig
- Gwyliadwriaeth iechyd plant
- Gwasanaeth mân anafiadau
- Apwyntiadau mynediad agored
- Triniaethau nyrs a rhwymo anafiadau

Cafwyd cwmni dau aelod lleol o'r cyngor iechyd cymuned yn yr arolygiad hwn.

3. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut roedd Meddygfa Heol Wylcwm yn bodloni'r safonau gofal a nodwyd yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Yn gyffredinol, gwelwyd tystiolaeth bod Meddygfa Heol Wylcwm yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Dyma'r hyn a welsom oedd y feddygfa'n ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan Feddygfa Heol Wylcwm.
- Roedd gan staff ddealltwriaeth dda o anghenion a gofynion cleifion.
- Roedd yr holl gofnodion cleifion a welwyd wedi'u cwblhau i safon uchel.
- Mae'r ddarpariaeth mân anafiadau yn cynnig gwasanaeth amhrisiadwy mewn rhan wledig o Gymru.
- Mae grŵp cyfranogiad cleifion gweithredol ar waith ac mae hwn yn canolbwyntio ar roi safbwynt cleifion ar faterion a allai effeithio ar brofiad cleifion sy'n mynychu'r feddygfa.

Dyma'r hyn rydym yn argymhell y gallai'r feddygfa ei wella:

- Mae angen cofnodi hyfforddiant staff yn glir a diweddarar'r cofnodion yn rheolaidd.
- Mae angen gosod arwyddion newydd ar gyfer y feddygfa ac arwyddion sy'n dangos bod gwasanaeth mân anafiadau ar gael.
- Mae'n ofynnol i staff gael disgrifiadau swyddi cyfredol a gwerthusiadau blynyddol.
- Mae'n rhaid i'r feddygfa sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar gael yn rhwydd a'u bod yn cwmpasu'r holl feysydd hanfodol. Rhaid i'r feddygfa hefyd sicrhau bod asesiadau risg perthnasol megis asesiadau sgrin arddangos ac asesiadau tân yn cael eu cyflawni mewn modd amserol.
- Dylid gwerthuso'r adeilad a'i amgylchedd er mwyn hyrwyddo mynediad rhwydd i'r adeilad a monitro mesurau rheoli heintiau yn barhaus.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Fel rhan o'r arolygiad hwn, casglodd dau aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Powys (CIC) farn cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn anffodus, nid oedd unrhyw holiaduron wedi'u dosbarthu gan y CIC cyn yr arolygiad. Roedd yr adborth ar y diwrnod yn unfrydol gadarnhaol am y gwasanaeth a gafwyd gan feddygon. Roedd yr adborth ar y gwasanaeth a gafwyd gan y nyrsys hefyd yn gadarnhaol iawn, heblaw am y ddau sylw negyddol a dderbyniodd y CIC.

Gweithiodd Meddygfa Heol Wylcwm yn gadarnhaol gyda'i chleifion i gynnig gwasanaeth oedd wedi'i deilwra i'w hanghenion ac fe atgyfnerthwyd hyn gyda'r grŵp cyfranogiad cleifion gweithredol sydd wedi'i hen sefydlu yn y feddygfa.

Rôl y ddau aelod o'r CIC oedd yn bresennol yn y feddygfa ar ddiwrnod yr arolygiad oedd casglu safbwyntiau cleifion o ran gwasanaethau a ddarperir gan Feddygfa Heol Wylcwm drwy sgysiauw yn wyneb yn wyneb. Cyfwelwyd cyfanswm o 13 claf / gwarcheidwad fel rhan o'r arolygiad gan y CIC a nododd pob un fod Meddygfa Heol Wylcwm yn ardderchog neu'n dda iawn.

Safon 4.1 Gofal urddasol

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, iaith ac ysbrydol unigol.

Gwelwyd yn ystod yr arolygiad fod staff ar ddesg y dderbynfa yn gwneud ymdrech i siarad â chleifion mor dawel â phosibl gyda chleifion oedd yn cofrestru ar gyfer apwyntiadau. Roedd system gofrestru electronig hefyd ar waith yn y feddygfa. Roedd y system hon yn galluogi pobl i gofrestru yn Gymraeg, Saesneg neu Bwyleg. Nodwyd ei bod yn bosibl ychwanegu ieithoedd eraill i'r system electronig pe byddai angen hynny. Roedd hysbysiadau yn weladwy yn y dderbynfa yn cynghori pobl i beidio ag aros o gwmpas y ddesg ac i aros yn yr ystafell aros ddynodedig ar wahân. Roedd hyn yn gwella preifatrwydd i staff y dderbynfa, oedd yn delio gyda'r cyhoedd naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Gwelwyd dau aelod o staff y dderbynfa ar ddiwrnod yr arolygiad yn cofrestru cleifion ac yn ateb y ffôn mewn modd tawel ac urddasol.

Nodwyd gennym nad oedd arwyddion yn cynghori cleifion y gallent siarad gyda staff yn breifat os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Ni hysbysebwyd yr opsiwn hwn gan y feddygfa ac felly nid yw cleifion neu eu cynrychiolwyr yn cael y cynnig hwn yn rhydd.

Mae gan y feddygfa bolisi am hebryngwyr a dywedwyd wrthym fod yr holl staff nyrsio a rhai o staff y dderbynfa wedi cael yr hyfforddiant priodol ar yr agwedd hon o'u dyletswyddau.

Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd fod yr holl ddrysau wedi cau pan oedd cleifion gyda meddyg neu nyrs. Roedd hyn yn galluogi ac yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas ar gyfer y cleifion yn ystod eu hymgyngoriadau a thriniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid rhoi gwybod i bobl sy'n mynychu'r feddygfa fod ganddynt y cyfle i 'gofrestru' neu gael trafodaeth breifat yn yr ardal sydd ger prif ddesg y dderbynfa pe dymunant hynny.

Gofal amserol

Safon 5.1 Mynediad amserol

Mae pob agwedd ar y gofal yn cael ei darparu mewn modd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael triniaeth a gofal yn y ffordd gywir, ar yr amser cywir, yn y man cywir a gyda'r staff cywir.

Roedd cleifion yn gallu gwneud apwyntiadau ar y diwrnod os oedd angen. Hefyd roedden nhw'n gallu gwneud apwyntiadau bythefnos ymlaen llaw. Gellir rhoi amser ychwanegol i gleifion os ydynt yn teimlo bod arnynt angen apwyntiad estynedig.

Mae gan y cleifion yr opsiwn i'r meddyg ar alwad wneud ymweliad cartref hefyd. Gwneir galwadau cartref yn unol ag anghenion cleifion ac mae proses ar waith sy'n sicrhau fod y ceisiadau hyn yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.

Mae'r feddygfa hefyd yn cynnig gwasanaeth mân anafiadau ar gyfer cleifion nad ydynt yn rhan o'r feddygfa, er pe byddai claf y feddygfa yn mynychu fel claf mân anafiadau byddent yn cael eu gweld gan feddyg neu nyrs yn yr un modd. Nodwyd bod y ddarpariaeth mân anafiadau yn darparu triniaeth ar gyfer 15 o bobl y mis ar gyfartaledd. Nid oedd y gwasanaeth mân anafiadau wedi'i hysbysebu y tu allan i'r feddygfa ac felly nid oedd yn ymddangos iddo gael ei

hyrwyddo'n gywir. Dylai'r feddygfa sicrhau fod arwyddion priodol ar gael i'r cyhoedd am ddarpariaeth y gwasanaeth hwn. Mae'r Uned Achosion Brys pwrpasol agosaf tua 24 milltir i ffwrdd ac felly dylid hyrwyddo darpariaeth y gwasanaeth hwn yn lleol fel gwasanaeth amhrisiadwy.

Roedd y feddygfa hefyd yn gweithredu 'Ward Rithwir'.¹ Mae hyn yn golygu bod pan fydd meddygon yn arbennig o bryderus am glaf, cânt eu 'derbyn' i'r ward rithwir. Yna bydd eu cyflwr yn cael ei drafod gan y tîm gofal sylfaenol (meddygon, nyrsys ardal a gweithwyr gofal iechyd cysylltiedig). Dywedwyd wrthym fod y dull hwn wedi golygu fod derbyniadau i'r ysbyty wedi lleihau.

Roedd y meddygon hefyd yn gyfrifol am y cleifion oedd yn cael eu derbyn i Ysbyty Trefyclo. Roedd rowndiau ward yn cael eu cynnal gan y meddyg nad oedd ar alwad a byddai hefyd yn mynd i'r ysbyty pe byddai angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r feddygfa osod arwyddion clir sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd fod gwasanaeth mân anafiadau ar gael yn y feddygfa.

Safon 6.3 Gwrando a dysgu o adborth

Mae'n rhaid galluogi pobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai hynny a ddarparodd eu gofal er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, ac mae'n rhaid iddynt gael ymateb agored ac onest. Dylai'r gwasanaethau iechyd gael eu siapio gan anghenion y bobl a wasanaethir, a bodloni eu hanghenion, a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Mae'r feddygfa wedi datblygu polisi a gweithdrefn cwynion / pryderon. Roedd hwn ar gael yn y feddygfa ac yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion. Byddai unrhyw gwynion a dderbynnir gan y feddygfa yn cael eu hymchwilio gan reolwr y feddygfa. Mae'r feddygfa'n cadw cofnod o'r holl gwynion a'r pryderon a thrafodwyd y rhain yng nghyfarfodydd y feddygfa.

¹ Mae wardiau rithwir yn defnyddio systemau a dulliau staffio ward ysbyty, ond heb yr adeilad corfforol. Eu nod yw lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty drwy reoli achosion amlddisgyblaethol i'r claf gartref.

Yn ôl rheolwr y feddygfa, byddai'r holl achwynwyr yn derbyn llythyr cydnabod ac roedd y polisi'n glynu'n agos at y papur 'Gweithio i Wella',² sef y trefniant presennol ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.

Roedd blwch post yn yr ystafell aros lle gallai pobl roi sylwadau / adborth. Nid oedd yn glir sut roedd y sylwadau a'r awgrymiadau hyn yn cael eu defnyddio gan y feddygfa i werthuso'r gwasanaeth a chynorthwyo dysgu. Roedd rheolwr y practis yn newydd yn ei swydd ac roedd yn awyddus i symud y mater hwn ymlaen er mwyn nodi gwelliannau a dysgu ar bob cyfle posibl. Awgrym adborth blaenorol, a roddwyd ar waith gan y feddygfa yn ôl y llyfryn gwybodaeth i gleifion, oedd cynyddu nifer yr apwyntiadau oedd ar gael i weld meddygon ar ddyddiau Llun a dyddiau Gwener.

Fel y soniwyd eisoes, roedd gan y feddygfa grŵp cyfranogiad cleifion gweithredol ar waith. Gwelwyd samplau o'r cofnodion ac roedd y cyfarfod blaenorol yn cynnwys nodi holiadur boddhad cleifion newydd. Roedd drafftiau o'r holiadur wedi'u llunio a'r gobaith oedd y gallai'r trefniadau hyn gael eu cwblhau er mwyn cynnal arolwg strwythuredig o gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r feddygfa edrych ar ddatblygu system lle mae'r holl adborth am y feddygfa'n cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd.

² 'Gweithio i Wella' yw trefniant y GIG ar gyfer ymdrin ac ymateb i bryderon mewn gwasanaethau'r GIG ac fe'i gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, gwelwyd tystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod tîm y feddygfa yn rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Roedd cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan staff roedden nhw'n eu hadnabod yn dda ac roedd hyn yn hybu dilyniant yn eu gofal.

Roedd y llyfryn i gleifion yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn i gleifion wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd.

Roedd y feddygfa wedi datblygu polisi a gweithdrefn rheoli heintiau ac edrychwyd ar y rhain yn ystod yr arolygiad.

Mae gan y feddygfa lu o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ond, ar adegau, roedd yn anodd dod o hyd i'r rhain. Roedd rheolwr newydd y practis yn dod i arfer â'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar gael yn y feddygfa.

Mae gwelliannau'n ofynnol mewn perthynas â'r holl bolisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch. Nodwyd bod yr asesiad risg tân yn hen ac angen ei adolygu, nad oedd digon o asesiadau risg cyfarpar sgrin arddangos yn eu lle, a bod angen llawer o waith i ddiweddarau ffolder y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Aros yn iach

Mae pobl yn cael eu galluogi a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles ac mae gofalwyr unigolion nad ydynt yn gallu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cefnogi. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i amddiffyn a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Roedd amrywiaeth dda o ddeunydd darllen ar gael ar ffurf posteri a thafenni mewn perthynas â hybu iechyd a lles. Roedd amrywiaeth eang o lyfrynau a phosteri ar gael oedd yn rhoi gwybodaeth ac yn hyrwyddo pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Isod ceir sampl o daflenni oedd ar gael yn y feddygfa:

- Ymwybyddiaeth llid yr ymennydd
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Ffliw
- Angina
- Materion cof

- Gweithredu dementia
- Cam-drin domestig
- Canser y fron
- Ffibriliad atrïaidd

Gofal diogel

Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi, eu monitro a, lle bo'n bosibl, eu lleihau a'u hatal.

Wrth eu harchwilio, gwelwyd bod ardaloedd mewnol yr adeilad yn lân ac yn daclus. Nid oedd unrhyw rwystrau mewn coridorau ac roedd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o unrhyw lithro a baglu. Roedd ystafelloedd clinigol yn cael eu cadw i safon dda ac roedden nhw'n darparu'r holl offer angenrheidiol sydd eu hangen i gynnig triniaeth a gofal diogel ac effeithiol.

Nodwyd y gallai mynediad i'r adeilad drwy'r brif fynedfa fod yn risg sylweddol bosibl i gleifion sydd â phroblemau symudedd. Roedd hyn oherwydd y ffaith bod y fynedfa ar oledf bychan ac roedd y gloch galw am gymorth o natur ddomestig a byddai'n anodd i'w defnyddio os oedd gan y claf anhawster symud echddygol manwl neu anhawster symudedd. Yn ogystal â hynny, roedd y gloch wedi'i lleoli wrth ochr y drws ac roedd y lloriau ar ongl oddi wrth y drws, eto yn ei gwneud yn anodd mynd mewn i'r adeilad.

Nodwyd hefyd fod y feddygfa'n cynnig parcio i'r anabl, ond roedd y llinellau yn yr ardal barcio oedd yn dangos yr ardal benodol ar gyfer cleifion anabl wedi pylu'n sylweddol. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn y broses o gael prisiau i ddatrys y broblem hon.

Mae gan y feddygfa bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, a rhai asesiadau risg ar waith. Nid oedd y polisïau, y gweithdrefnau na'r asesiadau risg hyn yn cael eu cadw gyda'i gilydd a'u cadw mewn modd trefnus. Roedd angen gwella ac ystyried ffeil y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn ofalus ac roedd angen adolygu'r asesiad risg tân.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r feddygfa sicrhau fod problemau mynediad i'r adeilad yn cael eu gwerthuso'n ofalus a'u gwella. Hefyd rhaid i'r feddygfa adolygu'r ddarpariaeth parcio i'r anabl.

Mae'n rhaid i'r feddygfa sicrhau bod rhestr gyfoes lawn o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith, sy'n cwmpasu'r holl feysydd gorfodol, a bod yr holl asesiadau risg yn cael eu cwblhau a'u hailwerthuso mewn modd amserol.

Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Mae angen i waith atal a rheoli heintiau yn effeithiol bod yn fusnes i bawb a rhaid iddo fod yn rhan o arfer gofal iechyd bob dydd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Roedd gan y feddygfa weithdrefn a pholisi llawn, clir a manwl ar reoli heintiau i'r staff eu defnyddio. Nododd staff nyrsio eu bod yn hapus gyda darpariaeth yr offer amddiffynnol personol sydd ar gael. Roedd ystafelloedd triniaeth clinigol yn lân ac roedd arferion rheoli heintiau yn cael eu hybu. Roedd gan yr ystafelloedd hynny a welwyd gyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwardwyd ar yr holl gynnyrch gwastraff clinigol mewn modd priodol.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod y carpedi yn yr ystafell aros wedi'u marcio ac wedi gwisgo. Roedd rheolwr y feddygfa'n ymwybodol o hyn ac yn cytuno ei bod yn ardal sydd angen sylw. Nodwyd hefyd bod rhai materion penodol o ran rheoli heintiau y mae angen i'r feddygfa roi sylw iddynt. Yn gyntaf, roedd sedd y toiled yn nhoiledau'r cleifion wedi cracio. Roedd hyn yn peri pryder rheoli heintiau y mae angen mynd i'r afael ag ef. Yn ail, roedd toiledau'r cleifion a thoiledau'r staff yn defnyddio biniau gwthio â llaw. Unwaith eto, mae hwn yn fater rheoli heintiau y gellir ei liniaru'n hawdd drwy eu disodli â biniau pedal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r feddygfa sicrhau fod rheolaeth atal a rheoli heintiau'n cael ei gwella, gan gynnwys newid y sedd toiled sydd wedi cracio ac amnewid biniau gyda biniau sy'n cael eu gweithredu gyda'r traed.

Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, y feddyginiaeth gywir gyda'r ddos gywir, ac ar yr adeg iawn.

Nid yw Meddygfa Wylcwm yn feddygfa sy'n gweinyddu meddyginiaeth. Dywedwyd wrthym fod ganddynt berthynas dda â'r fferyllfa leol. Roedd canllawiau ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy ar gael yn llyfryn y feddygfa ac roedd hyn yn rhoi canllawiau clir ynghylch y broses i'w dilyn. Roedd y feddygfa hefyd yn cynnig gwasanaeth presgripsiynau amlroddadwy electronig diogel. Nododd y canllawiau yn llyfryn y feddygfa hefyd y byddai adolygiadau meddyginiaeth yn digwydd yn rheolaidd ac y byddent fel arfer yn digwydd bob chwe mis ar gyfer cleifion sydd angen presgripsiynau amlroddadwy. Nodwyd bod rhai archwiliadau meddyginiaeth wedi'u cynnal gan fferylllydd a bod meddygon yn ymgymryd ag archwiliadau mewn perthynas â'u harferion rhagnodi eu hunain. Yn gyffredinol, ystyriwyd gennym fod y broses ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda ac yn effeithlon.

Safon 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Mae gwasanaethau iechyd yn hyrwyddo ac yn amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl ar unrhyw adeg.

Mae gan y feddygfa feddyg dynodedig sy'n arwain ar amddiffyn plant. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant lefel dau ar amddiffyn plant ac oedolion. Darperir yr hyfforddiant cyfredol ar-lein. Roedd proses benodol hefyd ar waith a fyddai'n rhybuddio staff am unrhyw gleifion sy'n agored i niwed sy'n cofrestru gyda'r feddygfa.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a gwneud penderfyniadau adlewyrchu arfer gorau yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau fod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth orau i fodloni eu hanghenion unigol.

Fe wnaeth rheolwr y feddygfa esbonio a dangos y system sydd ar waith ar gyfer rhannu a dosbarthu digwyddiadau diogelwch cleifion a/neu

ddigwyddiadau arwyddocaol. Roedd y broses o ledaenu gwybodaeth ymysg staff clinigol wedi'i hen sefydlu. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd i drafod a gwerthuso'r digwyddiadau hyn. Cawsom weld y digwyddiadau hyn a gallem nodi'n hawdd pa gamau oedd wedi dilyn. Roedd y prosesau hyn yn hybu dysgu o ddigwyddiadau. Ystyriwyd y maes hwn yn enghraifft dda o arfer cydweithredol oedd yn dangos bod staff yn cael y cyfle i gael gwybodaeth gyfredol, oedd er budd uniongyrchol gofal a thriniaeth cleifion.

Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol

Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i fodloni anghenion iaith a chyfathrebu unigolion.

Roedd y feddygfa yn hybu defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gael arwyddion a phosteri / deunyddiau penodol ar gael yn ddwyieithog. Mae gan y feddygfa rai cleifion Pwylaidd ac roedd y system gofrestru electronig yn cynnwys rhyngwyneb Pwyleg. Nodwyd y gellir uwchlwytho ieithoedd ychwanegol ar yr offer cofrestru awtomataidd pan fo hynny'n angenrheidiol.

Mae tasgau a chyfathrebu mewnol yn cael eu dosbarthu drwy e-bost a'r system 'tasgau'. Mae'r system 'tasgau' yn rhoi gwybodaeth i staff sy'n ymwneud â pha gamau i'w cymryd a'u cyflawni. Nodwyd bod canlyniadau pob prawf yn cael eu rhoi dros y ffôn gan feddygon neu nyrsys. Ar hyn o bryd, nid yw'r feddygfa'n galluogi unrhyw aelodau eraill o staff i rannu canlyniadau profion. Ym marn y tîm arolygu, mae hyn yn cynyddu gofynion gwaith y clinigwyr yn sylweddol a gallai fod yn faes lle dylid ystyried arferion dirprwyo gwell.

Oherwydd lleoliad y feddygfa ar ffin Cymru / Lloegr a'r gwahanol systemau a phrosesau sydd ar waith yn y ddwy wlad, gellir derbyn gwybodaeth megis am gleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty naill ai drwy gopïau caled neu yn electronig. Mae hyn hefyd yn wir am ganlyniadau profion. Roeddem yn deall bod hyn yn cynyddu cymhlethdod casglu gwybodaeth benodol mewn modd trefnus ac amserol. Mae'r feddygfa wedi dechrau gwasanaeth negeseuon testun newydd, a ddefnyddiwyd i alw rhai o'r cleifion yn ôl i'r feddygfa. Trafodwyd y maes arfer hwn ac roedd staff y feddygfa'n ymwybodol o'r manteision a'r cyfyngiadau.

Cawsom wybod gan reolwr y practis a nyrs practis bod y feddygfa'n monitro'r cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau dynodedig. Dywedwyd wrthym y byddai nyrsys practis yn cysylltu â chleifion nad ydynt wedi mynychu eu

hapwyntiadau, ond nid oeddem yn sicr o'r broses benodol i'w dilyn ar bob achlysur os nad oedd cleifion yn bresennol. Dylai'r feddygfa egluro'r maes arfer hwn er mwyn lleihau a lliniaru unrhyw ddryswch a sicrhau llinellau cyfrifoldeb clir.

Cadw cofnodion

Safon 3.5 Cadw cofnodion

Mae cadw cofnodion da yn hanfodol i sicrhau fod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau safonau clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, edrychwyd ar nifer o gofnodion cleifion ar hap. Daethpwyd i'r casgliad bod safon cadw cofnodion o safon dda iawn. Roedd y wybodaeth oedd yn y nodiadau yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch canlyniad yr ymgynghoriad a'r cynllun gofal i'w ddarparu i'r claf. Canmolir y feddygfa am y maes hwn o ymarfer.

Ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar y cyfan, gwelsom dîm staff hapus a chydlynol a oedd yn hyderus yn eu gwaith. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arweiniad cryf gan glinigwyr. Roedd rheolwr y practis yn newydd iawn i'r swydd ac yn setlo'n dda yn y rôl newydd. Roedd yn amlwg yn ystod trafodaethau manwl fod gan reolwr y practis gryn dipyn o brofiad o weithio ym maes gofal sylfaenol. Gwelwyd tystiolaeth hefyd bod rheolwr y practis yn awyddus i edrych ar systemau a phrosesau sydd ar waith ar hyn o bryd a'u gwella lle bo hynny'n bosibl.

Amlygwyd yn ystod yr ymweliad bod arferion dirprwyo yn y feddygfa yn gyfyngedig. Trafodwyd y maes hwn o arweinyddiaeth a rheolaeth fel elfen reoli bosibl y gellid ei datblygu ymhellach ac a allai hyrwyddo datblygu a dysgu staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n ystyried maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd, yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel, cynaliadwy ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y person.

Mae gan y feddygfa dîm sefydlog o staff sy'n canolbwyntio ar y cleifion. Mae llawer o'r staff wedi gweithio ers nifer o flynyddoedd yn y feddygfa. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn trafod unrhyw bryderon / materion a'u bod yn teimlo y byddent yn cael sylw mewn modd ystyrlon ac adeiladol.

Fe'n hysbyswyd bod gan y feddygfa bolisi chwythu'r chwiban pe byddai unigolion yn teimlo fod angen codi unrhyw fater mewn modd cyfrinachol.

Mae gan y feddygfa lu o bolisïau a gweithdrefnau ar waith ond, ar adegau, roedd yn anodd dod o hyd i'r deunydd angenrheidiol.

Nodwyd nad oedd gan yr holl bolisïau a gweithdrefnau fersiynau wedi'u rhifo (rheoli fersiynau) a dyddiadau adolygu. Bydd rheoli fersiynau yn helpu rheolwr y practis i gadw trefn ar y meysydd sydd angen sylw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r feddygfa adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau a sicrhau bod gan bob un ohonynt y fersiwn gywir a'r dyddiadau adolygu cywir wedi'u nodi'n glir.

Roedd yn amlwg yn ystod yr ymweliad bod gan reolwr y feddygfa a chlinigwyr berthynas weithio dda ac roedd materion yn ymwneud â'r feddygfa'n cael eu trafod a'u datrys mewn modd amserol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gan y feddygfa flwch awgrymiadau / sylwadau. Nid oedd y broses o grynhoi a rhannu'r wybodaeth hon yn glir. Mae angen i reolwr y practis werthuso'r maes ymarfer hwn yn y feddygfa a llunio cynllun gweithredu sy'n nodi'n fanwl sut y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio a'i rhannu gyda'r cyhoedd. Mae'r grŵp cyfranogiad cleifion hefyd yn y broses o ddatblygu holiadur boddhad cleifion. Dylid datblygu'r holiadur hwn mewn modd ystyrlon a dylai'r canlyniadau gael eu dosbarthu i'r feddygfa hefyd mewn ffordd effeithiol a llawn gwybodaeth.

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff gyda'r sgiliau a'r wybodaeth briodol ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu'r angen.

Yn ystod yr arolygiad, dywedwyd wrthym fod y feddygfa yn annog staff i fynychu hyfforddiant penodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn amlwg bod y nyrsys cymwysedig yn ymgymryd â hyfforddiant er mwyn ei ddangos fel tystiolaeth ar gyfer eu hailddilysiad.³ Roedd ffeiliau yn cynnwys yr holl wybodaeth ail-ddilysu yn cael eu paratoi i'w cyflwyno fel elfen orfodol i gadw cofrestriad dilys gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Cafwyd trafodaethau gyda rheolwr y practis ac edrych ar ddogfennau oedd yn amlinellu rhai o'r digwyddiadau hyfforddi roedd y staff wedi'u mynychu. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu nodi'n glir pwy sydd wedi cwblhau pa hyfforddiant gan fod y cofnodion yn ddigyswllt ac nad oeddent wedi'u cofnodi mewn ffordd gydlynol.

Nododd rheolwr y practis fod system hyfforddiant a chofnodi presenoldeb newydd yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith, a fyddai'n cynnig fframwaith i wella'r broses o gofnodi hyfforddiant staff.

³ Ailddilysu yw'r broses newydd y bydd angen i holl nyrsys a bydwreagedd yn y DU ei dilyn i gadw eu cofrestriad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac roedd swydd-ddisgrifiadau ar gael. Amlygwyd bod rhai o'r disgrifiadau swyddi hyn yn hen a bod angen eu hadolygu gan fod rhai rolau staff a chyfrifoldebau wedi newid. Nodwyd nad oedd rhai aelodau o staff wedi cael gwerthusiad blynyddol ers peth amser. Dywedodd rheolwr y practis wrth y tîm arolygu y byddai'r meysydd arfer hyn yn cael eu hadolygu a'u gweithredu arnynt yn unol â hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r feddygfa sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'w rôl mewn modd amserol ac y cedwir cofnodion o gyrsiau hyfforddi yn gywir.

Rhaid i'r feddygfa sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiadau blynyddol a sesiynau cefnogi ychwanegol fel y bo angen.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r feddygfa gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn rhoi sylw i ganfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Meddygfa Heol Wylcwm yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yno, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) gweithredu a gymerir gan y feddygfa mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.

Lle mae camau gweithredu yng nghynllun gwella'r practis yn parhau i fod heb eu cyflawni a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC er mwyn cadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o arolygu yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r safonau hyn yn allweddol i'r penderfyniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar y polisiau a'r gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith o ran llywodraethu clinigol

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn meddygfeydd.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis yn ystod y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Bydd unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn yn cael eu dwyn i sylw'r practis a'r bwrdd iechyd lleol drwy lythyr gweithredu ar unwaith ac mae'r canfyddiadau hyn (lle maent yn berthnasol) i'w gweld yn fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis:

Meddygfa Heol Wylcwm

Dyddiad yr Arolygiad:

10 Ionawr 2017

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-------------------------------|--|-------|---|----------------------------------|-----------------------------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | | |
| 6 | <i>Dylid rhoi gwybod i bobl sy'n mynychu'r feddygfa fod ganddynt y cyfle i 'gofrestru' neu gael trafodaeth breifat yn yr ardal sydd ger prif ddesg y dderbynfa pe dymunant hynny.</i> | 4.1 | Mae posteri hunan-gofrestru wedi'u lleoli ar ddrws y fynedfa ac ar ddesg y dderbynfa. Mae hysbysiad y gellir cael trafodaethau preifat wrth y ffenestr ochr i'w weld ar y ddesg a gellir ei ailadrodd gan staff y dderbynfa. | Juliet Tyler Juliet Tyler | Eisoes ar waith 06/03/2017 |
| 7 | <i>Dylai'r feddygfa osod arwyddion priodol sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd mewn modd eglur bod gwasanaeth mân anafiadau ar gael yn y feddygfa.</i> | 5.1 | Mae hysbysiad ar y dderbynfa flaen ynghyd ag yn yr ystafell aros. Hefyd, mae ar wefan y feddygfa ac mae dolen ar wefan tref Trefyclo i'n gwefan. | Juliet Tyler | Eisoes ar waith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|-------|---|----------------------------------|------------------------------|
| 8 | <i>Mae'n rhaid i'r feddygfa edrych ar ddatblygu system lle mae'r holl adborth am y feddygfa'n cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd.</i> | 6.3 | Lluniwyd holiadur gan y grŵp cyfranogiad cleifion. Bydd data'n cael ei ddadansoddi ar ôl ei gwblhau. Sylwadau/awgrymiadau i gael eu hadolygu bob mis ac adborth naill ai drwy'r wefan/ystafell aros neu'r grŵp cyfranogiad cleifion. | Juliet Tyler Juliet Tyler | 31/04/2017 31/04/2017 |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | | |
| 11 | <i>Rhaid i'r feddygfa sicrhau fod problemau mynediad i'r adeilad yn cael eu gwerthuso'n ofalus a'u gwella. Hefyd rhaid i'r feddygfa adolygu'r ddarpariaeth parcio i'r anabl.</i> | 2.1 | Ailedrych ar y dyfynbris ar gyfer drysau awtomatig a lefelu'r fynedfa. Mae'r grŵp cyfranogiad cleifion eisoes yn edrych ar gyllid (mae llythyr wedi ei ddrafftio ar gyfer y fferyllfa Boots). Ailedrych ar y dyfynbris ar gyfer ail-farcio'r maes parcio, gan gynnwys y parcio i bobl anabl. | Juliet Tyler Juliet Tyler | 31/06/2017 31/06/2017 |
| 11 | <i>Mae'n rhaid i'r feddygfa sicrhau bod rhestr gyfoes lawn o'r holl bolisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith sy'n cwmpasu'r holl feysydd gorfodol a bod yr holl asesiadau risg yn cael eu cwblhau a'u hailwerthuso</i> | 2.1 | Cynhaliwyd ymweliad safle gan ymgynghorydd iechyd a diogelwch Citation. Bellach mae gennym strwythur ar waith i gwmpasu pob agwedd ar iechyd a diogelwch. | Juliet Tyler | 31/04/2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|---|--|------------------------------|
| | <i>mewn modd amserol.</i> | | Asesiad risg tân wedi'i drefnu ar gyfer 21 Mawrth 2017, i gynnwys hyfforddiant tân i staff. | Juliet Tyler | 31/03/2017 |
| 11 | <i>Rhaid i'r feddygfa sicrhau fod rheolaeth atal a rheoli heintiau'n cael ei gwella, gan gynnwys newid y sedd toiled sydd wedi cracio ac amnewid biniau sy'n cael eu gweithredu gyda dwylo i finiau sy'n cael eu gweithredu gyda'r traed.</i> | 2.4 | Newidiwyd sedd y toiled ac erbyn hyn ceir biniau sy'n cael eu gweithredu gyda'r traed. Byddwn yn edrych i gwblhau trosolwg rheoli heintiau chwarterol i dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y dyfodol. | Juliet Tyler Juliet Tyler | 06/03/2017 31/05/2017 |
| Ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth | | | | | |
| 15 | <i>Dylai'r feddygfa adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau a sicrhau bod gan bob un ohonynt y fersiwn gywir a'r dyddiadau adolygu cywir wedi'u nodi'n glir.</i> | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd 7.1 | Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a'i ddiweddarau ochr yn ochr ag adrannau Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Citation. Mae polisiau a gweithdrefnau clinigol hefyd yn cael eu hadolygu. | Juliet Tyler Dr Kiff/Dr Lempert | 31/07/2017 31/07/2017 |
| 17 | <i>Rhaid i'r feddygfa sicrhau bod yr</i> | Llywodraethu, | Mae hyfforddiant ar-lein ffrwd las | Juliet Tyler | 31/05/2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|---|--|------------------|------------|
| | <i>holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'w rôl mewn modd amserol ac y cedwir cofnodion o gyrsiau hyfforddi yn gywir.</i> | arweinyddiaeth ac atebolrwydd 7.1 | wedi dechrau. Bydd taenlen yn cael ei datblygu er mwyn cofnodi'r rhai sy'n ei gwblhau. | | |
| 17 | <i>Rhaid i'r feddygfa sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn gwerthusiadau blynyddol a sesiynau cefnogi ychwanegol fel y bo angen.</i> | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd 7.1 | Mae'r gwerthusiad staff cyntaf yn cael ei gynnal ar 6 Mawrth 2017. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar swydd-ddisgrifiadau, contractau, a chynlluniau datblygu personol. | Juliet Tyler | 31/07/2017 |

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Juliet Tyler.....

Teitl: Rheolwr y Practis.....

Dyddiad: 3/03/2017.....

Atodiad B

Adroddiad y Cyngor Iechyd Cymuned

Adroddiad gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys



Arolygiad Meddyg Teulu ar y Cyd AGIC – CIC (Adroddiad CIC)

Crynodeb o'r Ymweliad

Practis: Meddygfa Heol Wylcwm, Trefyclo

Dyddiad / Amser: Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017 o 9.30am

Tîm y CIC:

Cyngor Iechyd Cymuned Powys

Mr Geoffrey Greaves – Aelod (Arweinydd)

Y Cyngorydd Gillian Thomas – Aelod

Diben yr

ymweliad:

I roi barn o safbwynt cleifion i Dîm Arolygu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Adborth Cleifion

Llwyddodd aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned siarad gyda

13 o gleifion yn ystod yr ymweliad ar y cyd hwn, a chyflawni arolwg cleifion gyda'r rhain. Mae adroddiad dadansoddi'r arolygon wedi'i atodi.

Roedd naw allan o'r tri ar ddeg o gleifion wedi'u cofrestru gyda'r practis am fwy na deng mlynedd ac roedd un claf newydd gofrestru, ar ôl trosglwyddo o Bractis Meddygol Meadows, a oedd wedi cau ei feddygfa yn Nhrefyclo yn ddiweddar.

Dyweddodd dau o'r cleifion eu bod yn anfodlon gydag un o'r nyrsys.

Dyweddodd yr holl gleifion fod y feddygfa'n 'Wych' neu'n 'Dda Iawn'.

Ystyriwyd yr amgylchedd yn y feddygfa yn heddychlon.

Arsylwadau

Amgylchedd – Allanol

- Nododd aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned nad oedd arwyddion gweladwy o'r ffordd.
- Nid oedd unrhyw ofod parcio wedi'i neilltuo i barcio anabl.
- Roedd y tir y tu allan i'r drws sydd ar ogwydd yn golygu fod mynediad gyda chadair olwyn yn anodd.

Amgylchedd – Mewnol

- Ystyriodd aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned fod llawr yr ystafell aros yn salw iawn.
- Yn nhoiled y cleifion, nodwyd bod sedd toiled wedi torri a bod hynny'n cael ei ystyried yn berygl haint. Dylid newid hon gyda sedd lliw gwahanol i helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg.
- Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd mewnol yn olau, yn eang, ac yn cael digon o awyr iach.

Cyfathrebu a Gwybodaeth sy'n cael ei Harddangos

- Roedd digon o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos.
- Mae gan y feddygfa wefan gynhwysfawr er yr ystyriwyd bod y wybodaeth am amseroedd agor yn ddryslyd.
- Mae gan y feddygfa Grŵp Cyfranogiad Cleifion, a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2016.
- Mae'r feddygfa'n cynnig gwasanaeth mân anafiadau ac roedd cleifion yn gwybod amdano drwy glywed "ar lafar gwlad". Er y nodir bod gwybodaeth yn nhaflen y feddygfa am y gwasanaeth mân anafiadau, byddai aelodau'r CIC yn dymuno gwybod sut mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei hysbysebu i ymwelwyr â'r ardal neu i gleifion nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r feddygfa.

**Paratowyd yr adroddiad gan Mr Geoffrey Greaves
Aelod y Cyngor Iechyd Cymuned**